YSGOL Y CREUDDYN
POLISI GWISG YSGOL

Ein polisi yw y dylai pob plentyn wisgo gwisg ysgol tra'n mynychu'r ysgol neu tra'n cymryd rhan mewn digwyddiad a drefnwyd gan yr ysgol y tu allan i'r oriau ysgol arferol. Darperir rhestr gyflawn o'r eitemau angenrheidiol i wisg ysgol yn ein prosbectws ysgol, ynghyd â rheolau pellach.

Cadarnhaodd y Corff Llywodraethol reolau ynglŷn â gwisg ysgol er mwyn:

- meithrin balchder yn yr ysgol;
- ymdeimlad o berthyn iddi;
- sicrhau safon uchel o ymarweddiad;
- iechyd a diogelwch;
- cydraddoldeb ymhlith disgyblion.

Swyddogaeth rhieni

Gofynnwn i bob rhiant sy'n anfon eu plant i'n hysgolion gefnogi'r polisi gwisg ysgol. Dylai rhieni sicrhau fod y wisg gywir gan eu plant, a'i bod yn lân ac yn drwsiadus.

Os hoffai unrhyw riant i'r ysgol newid ei pholisi gwisg ysgol, dylent drafod y peth yn y lle cyntaf gyda'r pennaeth. Mae'r ysgol yn croesawu plant o bob cefndir a chymuned o ffydd. Os oes yna resymau o ddifrif, er enghraifft gwrthwynebiad crefyddol, i rieni ddymuno i'w plant wisgo dillad gwahanol i'r wisg ysgol, bydd yr ysgol yn ystyriedg cais o'r fath â chydymdeimlad. Yn yr un modd, os bydd rhan o'r wisg ysgol yn peri anhawster i ddisgybl ag anabledd, dylai rhieni dynnu sylw'r pennaeth at hyn. Ni fydd yr ysgol yn trin disgyblion ag anabledd yn anffafriol.

Swyddogaeth llywodraethwyr

Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r pennaeth wrth weithredu'r polisi gwisg ysgol. Bydd yn ystyried pob sylw gan rieni ar y polisi hwn, ac yn cydlynu â'r pennaeth i sicrhau fod y polisi yn cael ei weithredu'n deg a chyda sensitifrwydd.

Cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw sicrhau bod y wisg ysgol yn diwallu'r holl anghenion cenedlaethol parthed cyfleoeddcyfartal, a bod ein polisi gwisg ysgol yn gydnaws â'n polisi ar gyfleoedd cyfartal. Hefyd bod y polisi'n cydfynd â Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru Cymru Rhif: 006/2008

Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod y polisi gwisg ysgol yn helpu'r plant i wisgo'n synhwyrol, mewn dillad sy'n para'n dda, yn ddiogel ac yn ymarferol.

Monitro ac adolygu

Wrth fonitro'r polisi hwn, drwy ei waith pwyllgor, bydd y corff llywodraethu yn:

- ceisio barn rhieni, i sicrhau eu bod yn cytuno â'r polisi, ac yn ei gefnogi;
- ystyried, gyda'r pennaeth, unrhyw geisiadau oddi wrth rieni i ganiatau i blant unigol gael eithriadau arbennig;
- gofyn i'r pennaeth roi adroddiad i'r llywodraethwyr o'r modd y mae'r polisi yn cael ei weithredu.
- ystyried barn disgyblion trwy gyfrwng y cyngor ysgol.

Caiff y polisi hwn ei adolygu gan y corff llywodraeth os credir bod hynny'n angenrheidiol.

GWISG YSGOL GENETHOD [Blwyddyn 7 –11]

1. Crys polo gwyn gyda logo'r ysgol

2. Crys Chwys Gwyrdd gyda logo'r ysgol

3. Trowsus Du – Steil Clasurol, pocedi ochr yn unig.

   <u>Ni chaniateir</u>:
   - Trowsus o ddefnydd hydwyth [stretch].
   - Trowsus o ddefnydd denim na chanfas.
   - Trowsus gydag addurniadau [ee bwcl/ botymau/ pwyth addurnedig, logos ffasiynol.
   - Trowsus ffasiynol - hynny yw 'Flares', 'Bootleg', 'Drain pipes' ayb

4. Sgert ddu steil clasurol, hyd pen-glin

5. Sanau du neu wyn. [plaen]

6. Côt fawr, côt law neu anorac UNLLIW dywyll.
   Ni chaniateir cotiau tracwisg, hoodies', siaced denim na siaced ledr

7. Sgarff blaen – lliw tywyll

8. Esgidiau du sy'n addas at ddefnydd ysgol.
   Ni chaniateir esgidiau gyda sodlau sy'n uwch na 6 cm
   [caniateir gwisgo esgidiau ymarfer (trenars) lliw du yn unig -heb unrhyw liw arall arnynt e.e. logo gwyn/aur ayb]

9. Bag ysgol plaen i gario llyfrau ac ati. Mae angen i'r bag fod yn addas ac yn ddigon cryf i gludo gwaith ysgol o le i le.
   Nid yw bag llaw ysgwydd trendi [hand bag] yn addas.

10. Caniateir un pâr o glutdlysau bychain, un fodrwy ac oriawr.

Mae'r dillad i'w gweld ac ar gael o
Boppers Boutique - School talk@Clifton House Newsagents - UKCK

GWISG ADDYSG GORFFOROL GENETHOD.

Mae pecynnau gwisg ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol i'w gweld ac ar gael o Boppers Boutique. Mae'r wisg angenrheidiol yn cynnwys:

- Crys 'fleece' du gyda logo'r ysgol arno.
- Crys T Gwyn [wedi ei siapio] gyda logo'r ysgol arno.
- Trowsus du ymarfer [hir] gyda streipen wen.
- Siorts Du.
- Sanau Gwyn.
- Esgidiau ymarfer [trenars]. (Nid yw esgidiau cynfas meddal yn addas i weithgareddau tu allan).
- Tywel.

Bydd angen bag addas i ddal dillad ac esgidiau gwersi ymarfer gorfforol.

IECHYD A DIOGELWCH
NI CHANIATEIR GWISGO TLYSAU I UNRHYW WERS YMARFEROL
[CLUSTDLYSAU, CADWYNI, ORIAWR ac ati]

GWISG YSGOL BECHGYN [Blwyddyn 7 –11]

1. Crys polo gwyn gyda logo'r ysgol.

2. Crys Chwys Gwyrdd gyda logo'r ysgol

3. Trowsus Du - Steil clasurol, pocedi ochr yn unig.

   Ni chaniateir:
   - Trowsus o ddefnydd hydwyth [stretch].
   - Trowsus o ddefnydd denim na chanfas.
   - Trowsus gydag addurniadau [ee bwcl/ botymau/ pwyth addurnedig, logos ffasiynol.
   - Trowsus ffasiynol - hynny yw 'Flares', 'Bootleg', 'Drain pipes' ayb

4. Sanau du neu wyn [plaen].

5. Côt fawr, côt law neu anorac UNLLIW dywyll.
   Ni chaniateir cotiau tracwisg, 'hoodies'', siaced denim na siaced ledr.

6. Sgarff blaen – lliw tywyll

7. Esgidiau du addas at ddefnydd ysgol.
   Ni chaniateir esgidiau gyda sodlau sy'n uwch na 6 cm
   [canieteir gwisgo esgidiau ymarfer (trenars) lliw du yn unig – heb unrhyw liw

arall arnynt e.e. logo gwyn/aur ayb]

8. Bag ysgol plaen i gario llyfrau ac ati. Mae angen i'r bag fod yn addas ac yn ddigon cryf i gludo gwaith ysgol o le i le.
10. Caniateir un pâr o glutdlysau bychain, un fodrwy ac oriawr.

Mae'r dillad i'w gweld ac ar gael o
Boppers Boutique - School talk@Clifton House Newsagents - UKCK

GWISG ADDYSG GORFFOROL BECHGYN

Mae pecynnau gwisg ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol i'w gweld ac ar gael o Boppers Boutique. Mae'r wisg angenrheidiol yn cynnwys:-

- Crys Rygbi Gwyrdd a Melyn yr ysgol.
- Crys 'fleece' du gyda logo'r ysgol arno [dewisol].
- Crys T Gwyn [i fechgyn] gyda logo'r ysgol arno.
- Trowsus du ymarfer [hir] gyda streipen wen.
- Siorts Du/Gwyn.
- Sanau Du.
- Esgidiau Rygbi/ Pêl-droed.
- Esgidiau ymarfer [trenars]. (Nid yw esgidiau cynfas meddal yn addas i weithgareddau tu allan).
- Tywel

Bydd angen bag addas i ddal dillad ac esgidiau gwersi ymarfer gorfforol.

IECHYD A DIOGELWCH
NI CHANIATEIR GWISGO TLYSAU I UNRHYW WERS YMARFEROL
[CLUSTDLYSAU, CADWYNI, ORIAWR ac ati]

RHEOLAU YNGLYN Â'R WISG YSGOL

- Mae'n rhaid i bob disgybl wisgo crys chwys gwyrdd gyda logo'r ysgol arno neu siwmper ysgol bob amser.

- Gellir tynnu'r siwmper/crys chwys mewn gwers gyda chaniatad yr athro/athrawes.

- Ni chaniateir gwisgo côt o unrhyw fath o fewn adeilad yr ysgol.

- Rhaid gwisgo cot lunlliw tywyll blaen heb logos mawr i'w gwisgo ar y ffordd i'r ysgol ac ar y ffordd adref. Dewis arall yw gwisgo cot 'fleece' werdd gyda logo'r ysgol arni

- Ni chaniateir gwisgo siacedi tracwisg, denim na lledr na "Hoodies".

- Rhaid i'r crys fod yn y trowsus/sgert bob amser.

- Ni chaniateir gwisgo esgidiau gyda sawdl fwy na 6cm (2 fodfedd a hanner) i ddod i'r ysgol.

- Caniateir gwisgo un fodrwy band syml yn unig.

- Caniateir gwisgo un par o glustdlysau 'stud' (un ym mhob clust) yn unig.

- Ni chaniateir gwisgo colur yn ystod oriau ysgol

- Nid yw steil gwallt eithafol yn dderbyniol – o ran lliw neu arddull. Rhaid i wallt fod o liw naturiol.

- Er diogelwch, dylai gwallt pob disgybl gael ei glymu oddi ar y wyneb yn ystod unrhyw wers ymarferol - e.e. Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg, Gwyddoniaeth.